| | | |
|---|---|---|
| **Cofnodion cyfarfod 13eg o Ragfyr 2023 a gynhaliwyd yn y Ganolfan am 7 yn yr hwyr** | | |
| **PRESENNOL** | | |
| Llinos Haf Pritchard | Iola Owen | |
| Iwan Harding | Louise Price | |
| Emlyn Baylis | Nia Jones | |
| Kevin Jones | Helen Sharp | |
| Rhys ap Gwilym | | |

| | | |
|---|---|---|
| **1.** | **GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU** | |
| | Agorwyd y cyfarfod yn ffurfiol gan y Cadeirydd Llinos Haf Pritchard gan groesawu'r aelodau i gyfarfod mis Rhagfyr. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorydd Gwilym Evans a'r Cynghorydd Trystan Thomas. | |
| 1.1 | Ni chafwyd cyfranogiad gan y cyhoedd. | |
| 1.2 | Llythyr Grŵp Datblygu Llanberis - cyflwynodd y Clerc eglurhad ynglŷn â phartneriaethau sydd yn bodoli yn barod a sut y buom i ddod i fodolaeth. Eglurwyd hefyd sut yr oeddem yn cael eu cyllido. Fe drafodwyd cynnwys y llythyr a phenderfynwyd byddai'r Clerc yn anfon at y Grŵp i ddatgan bod y Cyngor Cymuned yn gefnogol mewn egwyddor o'r syniad ond bod angen edrych i mewn i'r syniad yn fanwl a chael gwybodaeth bellach gan dderbyn copïau o'r astudiaethau dichonoldeb. Rhan o'r gwaith diwydrwydd fydd cynnal cyfarfodydd ar y cyd. Cyfeiriwyd hefyd am arian HBO ond nid oes unrhyw wybodaeth wedi dod i lawr ynglŷn â sut bydd yr arian yma i'w ddefnyddio neu ei rannu. Y Clerc i ymateb i'r Llythyr. | **CLERC** |
| 1.3 | Arian Clwb Ieuenctid Llanberis - beth amser yn ôl derbyniwyd arian ar ran y fenter Clwb Ieuenctid gan nad oeddynt gyda chyfrif banc eu hunain. Bellach mae trefniadau mewn lle i'r Ganolfan edrych ar ôl eu materion ariannol felly mae modd trosglwyddo'r arian i'r Ganolfan. Penderfynwyd yn unfrydol i drosglwyddo'r arian. | **CLERC** |
| 1.4 | Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Chwefror 2023 – derbyniwyd yr adroddiad. | **CLERC** |
| 1.5 | Ymgynghoriad newydd: Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) - cydnabod yr ymgynghoriad a phenderfynu gadael yr ymateb i Unllais Cymru ar ran y Cynghorau Cymuned. | |
| 1.6 | Bustach Boncyrs Bingo - eglurwyd nad oedd modd cyfrannu'n ariannol ar y digwyddiad. | |
| 1.7 | Cerflun Mynydd Gwefru - gan bod yr hen adeilad Mynydd Gwefru wedi ei ddymchwel a'r tir wedi ei dirlunio nid oedd y Cyngor yn gweld pwrpas i'r Pelton wheel. Penderfynwyd byddai'r Clerc yn anfon at Engie/First Hydro i weld os oes modd gwneud i ffwrdd a'r cerflun. Hefyd penderfynwyd byddai'r safle'r Pelton wheel yn addas at gyfer gosod cerflun coffau'r chwarelwyr, y Clerc i wneud cais am hyn at Engie/First Hydro.<br>Penderfynwyd atgyfodi'r fenter o godi cerflun coffau'r chwarelwyr gyda threfnu cyfarfod yn y flwyddyn newydd. Roedd y gweithgor pan sefydlwyd gyntaf yn cael ei gadeirio gan y cyn Glerc Dei Tomos; y Clerc i wahodd i barhau a'r cadeirio. | **CLERC** |
| 1.8 | Meinciau Cyfeillgarwch Plas Pengwaith – eglurwyd bod modd gwneud meinciau sy'n bodoli ar dir y cartref yn rhai cyfeillgarwch ond byddai angen ariannu'r prosiect. Eglurwyd sut byddai'r cynllun yn cael ei | **RHaG/KJ** |



Heather Lynne Jones

| | | |
|---|---|---|
| | ariannu os byddai gan y cartref gyfrif, chyfansoddiad a.y.b. a fyddai yn galluogi nhw wneud cais am gymorth ariannol. Yn anffodus nid oedd hyn yn bosib. Rhoddwyd wybodaeth bod modd derbyn arian o ffynhonnell arall. | |
| **2.0** | **DATGAN DIDDORDEB** | |
| | Cynghorydd Emlyn Baylis eitem 1.2; Cynghorydd Llinos Haf Pritchard eitem 7.2iv. | |
| **3.0** | **ADRODDIAD AR FATERION SIROL** | |
| 3.1 | Cyflwynwyd adroddiad ysgrifenedig ar faterion sirol gan y Cynghorydd Kim Jones, gweler yr adroddiad yn atodiad 1. | |
| **4.0** | **CADARNHAU GWARIANT A CHYFLWYNO ADRODDIAD ARIANNOL** | |
| 4.1 | Cyflwynwyd gwariant ac adroddiad ariannol mis Tachwedd 2023 a'u derbyn. | |
| 4.2 | Gyllideb 2024-2025 – cyflwynwyd gyllideb draft ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Eglurwyd y Clerc bod angen sichau bod angen sicrhau bod gwerth chew mis o arian yn y banc I sicrhau hybygrwydd gweinyddu'r Cyngor, mae 10 mil wedi ei glustnodi ar gyfer pryniant tir ar gyfer mynwent Newydd, bydd angen sicrhau clustnodi ir diben hyn eto y flwyddyn nesaf a sicrhau bod arian gogyfer prosiectau cymunedol. Mae'r gyllideb wedi ei selio ar gynnydd o 10% felly bydd angen sicrhau bod y praesept yn cael ei selio ar yr un raddfa.<br>Mae'r praesept ar hyn o bryd yn 36,000 a byddai cynnydd o 10% yn ei godi I 39600. Byddai hyn yn golygu bod godiad o £4.51 o Dreth Cyngor ar Band D o fewn y Gymuned. Penderfynwyd yn unfrydol I gynyddu'r praesept 10%. | **CLERC** |
| 4.3 | Cadarnhawyd taliadau mis Rhagfyr. | **CLERC** |
| 4.4 | Cyflwynwyd adroddiad gan y Pwyllgor Penodi bod cytundeb y Clerc wedi eu chwblhau a bod cyflog y Clerc wedi ei benderfynu gan ddefnyddio templed taenlen gwerthuso swydd, bydd y Clerc ar bwynt 31, sydd yn talu £20.37 ar hyn o bryd. Dim ond dyfarniad blynyddol ar gyflogau gweithwyr llyfr gwyrdd fyddai'n debygol o newid hyn.<br>Rhan o waith y Clerc yw paratoi cofnodion yn y Gymraeg a Saesneg. Yn y gorffennol a gwblhawyd y gwaith cyfieithu tu allan i'r Cyngor Cymuned. Bydd y gwaith o gyflwyno'r cofnodion yn y ddwy iaith yn ddyletswydd ar y Clerc. | |
| **5.0** | **CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL A MATERION YN CODI** | |
| 5.1 | Cadarnhawyd cofnodion mis Tachwedd 2023 . | |
| 5.2 | Gorfodaeth 20 m.y.a. – dim gorfodaeth wedi bod i'r cyfyngiad newydd hwn ond bellach mae'r heddlu wedi cychwyn ar y gwaith gorfodi. | |
| 5.3 | CCTV a chyfarfod Cyhoeddus – dim gwybodaeth wedi ei dderbyn gan Steven Edwards i gostau 5 camera. Gobeithir trefnu cyfarfod cyhoeddus yn y flwyddyn newydd, dyddiad yn dibynnu ar argaeledd yr heddlu. | |
| 5.4 | Diogelwch Ffordd Glanrafon - Cyngor Gwynedd wedi cynnig arwydd ffordd yn datgan bod cerddwyr yn y ffordd, nid yw'r arwydd yma yn addas, gofynnir am arwydd anawdurdodedig i ddynodi Llwybr Diogel i'r Ysgol - Dim Cerbydau. Nid oes gwybodaeth bellach wedi dod i law. | **CLERC** |
| 5.5 | Newid safle Bin Sbwriel Cae Chwarae Lan Llyn – nid oes unrhyw ddilyniant gan Gyngor Gwynedd ar y mater. | |
| 5.6 | Dwyieithrwydd - Stryd Fawr. Nodwyd bod un busnes wedi gweithredu ar y Llythyr. Croesawyd y gwaith mae'r Fran las wedi ei wneud. Mae'n | |

| | | |
|---|---|---|
| | bwysig bod defnydd o'r Gymraeg yn weledol ar y Stryd Fawr, Y Cyngor i barhau a'r ymgyrch i gefnogi defnydd o'r Gymraeg gan Fusnesau Llanberis.<br>Penderfynwyd byddai'r Cyngor yn dangos siomedigaeth y Gyngor Gwynedd am yr arwydd uniaith maent wedi ei godi ar gyfer Gwesty Fictoria yn Llanberis. | |
| **6.0** | **PRIFFYRDD A LLWYBRAU CYHOEDDUS** | |
| 6.1 | Gwaith adfer i balmant Stryd Fawr – cafwyd wybodaeth gan y Clerc bod y gwaith yma ar hyn o bryd wedi ei ohirio oherwydd bod gweithwyr priffyrdd Cyngor Gwynedd yn rhoi blaenoriaeth i graeanu a bod hyn yn digwydd ar fyr rybudd. Hefyd cafwyd wybod bod arian "Levelling up" gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ar gael i ardalaoedd y diwydiant llechi ac efallai bydd modd defnyddio'r arian yma i wneud y gwaith. Byddai rhaid i'r gwaith gynnwys llechi yn y duluniad. | |
| **7.0** | **Y FYNWENT** | |
| 7.1 | Gwaith i gofebion y Fynwent – y gwaith wedi ei gwblhau. | **CLERC** |
| 7.2 | Asesiad Risg a pholisi Rheoli'r Fynwent – argymhellwyd mabwysiadau'r ddwy ddogfen gan Bwyllgor y Fynwent. Penderfynwyd yn unfrydol i fabwysiadu'r dogfennau. | |
| 7.3 | Ymestyn y fynwent - dywedodd y Clerc bod Pwyllgor y Fynwent wedi ystyried adnabod tir ar gyfer mynwent gymunedol newydd. Adnabuwyd tir tu ôl i'r eglwys er efallai bydd mynedfa yn ddiffyg. Mae'r Clerc hefyd wedi dechrau trafod ag Archddiacon Bangor ynglŷn â'r posibilrwydd o ddefnyddio'r glastir. Bydd y drafodaeth yn parhau. | **CLERC** |
| 7.4 | Dim dilyniant wedi bod ar gyfer hysbysfwrdd newydd, er hynny efallai bod modd defnyddio'r hen strwythur ond ei osod uwch ben y wal. Adrodd am unrhyw ddatblygiad yn y cyfarfod nesaf | |
| **8.0** | **CEISIADAU CYNLLUNIO** | |
| | dim | |
| **9.0** | **GWEITHGAREDDAU CYMUNEDOL Y NADOLIG** | |
| 9.1 | Cafwyd adborth bod y Ffair Nadolig wedi bod yn lwyddiant ysgubol. | **CLERC** |
| 9.2 | Nid oedd safon y goeden i Lanberis wedi plesio, roedd hyn am yr ail flwyddyn yn olynol. Penderfynwyd ar gyfer y flwyddyn nesaf byddai'r cyngor yn edrych ar wahanol opsiynau i wneud a'r coed. Y gwaith yma i'w wneud mewn da bryd. | **CLERC** |
| **10.0** | **ADRODDIADAU CYRFF ALLANOL** | |
| 10.1 | Derbyniwyd adroddiad ynglŷn â chyfarfod diweddar o Lywodraethwyr Ysgol Dolbadarn. | |
| **Llofnod:** | | **Dyddiad:** |

Atodiad 1

**Adroddiad Cyngor Cymuned Rhagfyr.**

Y Ffair Nadolig wedi bod yn un llwyddiannus dros ben, diolch i bawb am eu cefnogaeth dros y ddau ddiwrnod (Gwasanaeth Tan, Eric B, Yr Eglwys, Emlyn am roi'r goleuadau 'mlaen, Dafydd Owen Electrician, Dolbadarn, Band Deiniolen a wrth gwrs Nia a Louise am y gwaith trefnu!)

National Grid – Gobeithio fydd y safle chwarae plant yn barod cyn y Nadolig (yn ddibynnol ar y tywydd) a newyddion da fod CPD Llanberis wedi bod yn llwyddiannus yn cael £20,000 drwy'r Community Grant Scheme yn ddiweddar er mwyn prynu peiriant torri gwair newydd sy'n costio oddeutu £24,000 a'r peiriant wedi i'w archebu.

Llinellau melyn i fyny yn Llainwen Uchaf o'r diwedd! Cyfnod ymgynghoriad Tan y Rhaeadr a Stryd Ceunant dal ar agor.

Diolch i'r Ganolfan am ariannu 'selection boxes' a phensiliau lliw ar gyfer Groto Sïon Corn x3! (Ffair Nadolig, Brecwast gyda Sïon Corn ag ar gyfer disgyblion Iau Ysgol Dolbadarn) a diolch i Raymond am wirfoddoli ar y tri achlysur i chwarae rhan Sïon Corn.

Grant LUF Parc Padarn – Mi fydd gwaith yn cychwyn ar ddechrau 2024 yng Ngilfach Ddu gan fod y Cyngor wedi bod yn llwyddiannus yn eu cais am grant LUF. (Rwyf wedi anfon y gwybodaeth ymlaen i'r Clerc sy'n cynnwys powerpoint ar y gwaith)

Cyfarfod Grŵp Digwyddiadau Llanberis - Wedi trafod digwyddiadau 2024 ac wedi nodi pryderon parcio, mi fydd y Parc yn rhannu rhestr derfynol o'r digwyddiadau gyda mi er mwyn i'w rannu gyda'r cyhoedd a gwneud posteri.

Rwyf wedi holi'r Cyngor os allith Y Ganolfan brynu bin Grit ganddynt gan mi gawsom drafferth gyda rhew flwyddyn dwytha' yn y maes parcio a nifer o ddigwyddiadau ymlaen yma. Y Cyngor am drefnu i'w osod ac anfon anfoneb i'r Ganolfan.

Clwb Cymdeithasol Llanberis - Maent yn casglu cynnyrch ar gyfer Cinio Nadolig trigolion Plas Pengwaith. Os allwch chi roi cig, llysiau, pwdinau neu unrhyw beth at eu Cinio Nadolig plîs allwch chi fynd a nhw i'r Clwb ar y 22/12 neu yn syth i'r cartref.

Wedi reportio i'r Cyngor ac i'r parc yn dilyn ymholiad fod pont bren Nant Peris yn beryglus (angen anti-slip) Y Cyngor am yrru rhywun yno i edrych arno ond disgwyl diweddariad.

Wedi holi'r Cyngor i ail-beintio llinell wen tu allan i 1 Glanrafon Terrace, Nant Peris gan fod y perchennog yn cael trafferth gyda cheir yn parcio ar draws y drive (disgwyl diweddariad gan Ian Morgan)

Sweeper wedi bod yn Fron Goch wythnos dwytha' yn dilyn cwyn am ddail peryglus (rhewi)

Siân Gwenllïan a minnau yn ymweld â'r Fferyllfa newydd Dydd Gwener yma 15/12.
Meinciau Cyfeillgarwch Plas Pengwaith – Am drafod yn y Cyfarfod

Bustach Boncyrs Bingo – Am drafod yn y Cyfarfod.

Rwyf yn bwriadu mynd ar gyfnod mamolaeth ar y 22/02 am 6 mis (Ond dal i wneud gwaith Cymunedol amwni, ddim yn gorfod mynychu cyfarfodydd y Cyngor am y cyfnod yma)



Heather Lynne Jones

Fflatiau ADRA Maes Padarn i gyd rŵan o dan 'keyfob system' er mwyn diogelu'r adeilad. Os yw'r tenantiaid angen mwy o fobs, maent angen cysylltu efo Adra i archebu rhai sbâr. Fel arall mae modd iddynt agor y drws i deulu/ffrindiau drwy system ffon/gloch o'r fflat.

Mi fydd Clwb Ieuenctid Llanberis yn parhau am y flwyddyn 2024/25.
Engie wedi llenwi pot holes mawr yn fynediad eu maes parcio yn sydyn yn dilyn fod trigolyn wedi disgyn yma.